**AMODAU TRWYDDED AR GYFER CYFLEUSTER GOFAL DYDD/CRECHE AR GYFER CŴN**

**DEDDF SEFYDLIADAU LLETYA ANIFEILIAID 1963**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Oni bai y nodir yn wahanol, bydd yr amodau dan sylw yn berthnasol i bob adeilad ac ardal a ddefnyddir gan gŵn a/neu a ddefnyddir mewn cysylltiad â rhoi gofal dydd i gŵn.

1.2 Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol ac addas yn cwmpasu'r safle a, lle bo angen, Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr digonol ac addas.

1.3 Ni chaniateir rhoi llety dros nos i gŵn dan y drwydded hon.

1.4 Ni ddylid derbyn unrhyw gi sydd wedi'i gofrestru dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 ar gyfer gofal dydd.

1.5 Ni ddylid derbyn cŵn hybrid sydd wedi'u cofrestru dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (e.e. Hybrid Blaidd) ar gyfer gofal dydd.

1.6 Ni ddylid rhoi cŵn gwrywaidd a geist sy'n cwnna gyda'i gilydd.

1.7 **Mae'n bosib** lletya cŵn bach dan 6 mis oed gyda chŵn eraill cyn belled eu bod wedi cael eu himiwneiddio fel y bo'n briodol ac nad oes unrhyw anawsterau wedi'u nodi yn ystod y cyfnod prawf cymdeithasu a ddogfennwyd.

## 2. ARDDANGOS TRWYDDED

2.1 Mae'n rhaid gwneud trefniadau addas i arddangos copi o'r drwydded a'i hamodau cysylltiedig i'r cyhoedd mewn man amlwg yn y safle, neu o'i amgylch, neu drwy sicrhau eu bod ar gael i bob lletywr.

## 3. NIFER YR ANIFEILIAID

3.1 Bydd nifer uchaf y cŵn a'r gymhareb staff:cŵn yn y safle ar unrhyw adeg yn unol â'r hyn a nodwyd yn nogfen y drwydded.

## 4. ADEILADU

4.1 Bydd yr holl arwynebau mewnol a ddefnyddir yn y gwaith o adeiladu'r waliau, lloriau, paredau drysau a fframiau drws yn wydn, llyfn ac anhreiddiadwy. Ni ddylai fod unrhyw fargodiadau neu ymylon geirwon sy'n debygol o achosi anaf.

4.2 Bydd gan y safle ei fynedfa ei hun ac ni ddylai fod â mynediad a rennir e.e. grisiau cymunol.

4.3 Rhaid sicrhau bod digon o le, golau, gwres ac awyriad i'r cŵn. Yn ystod y dydd dylai'r holl ardaloedd allu manteisio ar olau naturiol lle y bo'n ymarferol. Y tymheredd isaf a ganiateir yw 10ºC (50ºF) a'r uchaf yw 26ºC (79ºF). Rhaid cynnig awyriad nad yw'n cynnwys unrhyw ddrafftiau gormodol. Rhaid sicrhau tymheredd rhesymol ar bob adeg yn y mannau lle cedwir cŵn.

4.4 Cyn belled ag y bo'n ymarferol a rhesymol, ni ddylai'r ardaloedd/ystafelloedd a ddefnyddir gan gŵn gynnwys unrhyw berygl ffisegol neu gemegol a all achosi niwed i'r cŵn.

4.5 **Rhaid bod digon o le ar gael i gadw'r cŵn ar wahân yn ôl y galw. Ymhob achos, dylid asesu maint ac anghenion unigol y ci yn briodol, er mwyn sicrhau y gall y cyfleuster barhau i ddiwallu ei anghenion.**

## 5. RHEOLI

### 5.1 HYFFORDDIANT

5.1.1 **Rhaid llunio polisi hyfforddiant ysgrifenedig ar gyfer staff. Rhaid gallu dangos bod staff wedi cael eu hyfforddi'n systematig. Dylai staff feddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ymddygiad cŵn, gan gynnwys iaith y corff, dulliau chwarae a rheoli ymddygiad yn ogystal ag iechyd cŵn, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf i gŵn.**

### 5.2 GLANWEITHDRA

5.2.1 Dylai'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn, gan gynnwys y gegin ac ati, fod yn lân heb unrhyw faw neu lwch yn cronni ynddynt a'u cadw yn y fath fodd sy'n sicrhau'r gwaith o reoli heintiau a sicrhau bod cŵn yn gyfforddus.

5.2.2 Dylid cael gwared ag unrhyw faw ci a deunyddiau brwnt o'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn o leiaf pob bydd ac yn amlach na hynny os oes angen. Dylid cytuno ar y cyfleusterau ar gyfer cael gwared â gwastraff cŵn gyda'r swyddog awdurdodedig yn y Cyngor.

5.2.3 Dylid cadw'r holl welyau a deunyddiau yn lân a sych. Dylid glanhau'r eitemau dan sylw yn rheolaidd i osgoi croes-heintio. Rhaid i'r Trwyddedau allu darparu deunydd gwely ychwanegol.

5.2.4 Dylid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, cadw a chael gwared a'r holl wastraff yn briodol. Dylid rhoi sylw penodol i'r gwaith o gadw gwastraff clinigol sy'n deillio o drin a gofalu am gŵn gydag afiechydon heintus ar wahân.

5.2.5 Dylid rhoi mesurau ar waith i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â chnofilod (llygod), pryfed a phlâu eraill yn y safle.

5.2.6 Ni ddylai cemegau a ddefnyddir i lanhau'r cyfleuster gael effaith andwyol ar iechyd cŵn, petaent yn digwydd dod i gysylltiad â nhw.

## 5.3 BWYD A DŴR

5.3.1 Dylai'r holl gŵn gael digon o fwyd addas yn ôl cyfarwyddyd y cleient.

5.3.2 Dylid sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser (oni bai bod milfeddyg wedi nodi fel arall) a bod y bowlen yn cael ei glanhau bob dydd. Dylid newid y dŵr o leiaf ddwywaith y dydd.

5.3.3 Dylid darparu gwelyau, llestri, deunyddiau trin a thacluso addas. Dylid glanhau'r eitemau dan sylw yn rheolaidd i osgoi croes-heintio.

5.3.4 Pan fo angen, dylid darparu llestri bwyta ac yfed, ac felly, dylai'r rhain fod yn rhai y gellir eu glanhau a'u dihalogi'n rhwydd er mwyn osgoi croes-heintio. Hefyd, rhaid sicrhau eu bod yn lân bob amser. Dylid glanhau neu daflu llestri bwyd ar ôl pob pryd ac mae'n rhaid i bob ci gael ei bowlen ei hun.

## 5.4 CYFLEUSTERAU CEGIN

5.4.1 5.4.1 Rhaid cadw bwyd sych mewn cynwysyddion seiliedig. Rhaid storio bwyd amrwd a gweddillion tuniau agored mewn cynwysyddion sydd wedi gorchuddio, nad ydynt yn gynwysyddion metel, ac nad oes modd i fwyd ddiferu ohonynt yn yr oergell.

5.4.2 Dylid cadw cyflenwadau mawrion o fwyd mewn cynwysyddion gwrth-fermin.

5.4.3 Dylid darparu cyfleusterau cegin sydd wedi'u hadeiladau a'u cynnal a chadw'n lanwaith ar gyfer storio a pharatoi bwyd ar gyfer y cŵn.

5.4.4 Dylid sicrhau bod basn gyda dŵr poeth ac oer ar gael ar gyfer golchi offer bwyd a llestri bwyta ac yfed. Rhaid sicrhau bod basn golchi dwylo ar wahân gyda dŵr poeth ac oer ar gael i staff ei ddefnyddio.

## 5.5 RHEOLI AFIECHYD AC IMIWNEIDDIO

5.5.1 Dylid rhoi mesurau addas ar waith i atal a rheoli ymlediad afiechydon a pharasitiaid heintus ac ymledol ymysg y cŵn, staff a rheolwyr.

5.5.2 Dylid gallu dangos tystiolaeth bod y cŵn sy'n lletya yn y safle wedi'u himiwneiddio'n ddiweddar rhag Clefyd y Cŵn, Hepatitis Heintus y Cŵn (adenofirws cŵn), Leptosbirosis (*L.canicola* ac *L. Icterohaemorrhagicae)* a Pharofirws y Cŵn ac afiechydon perthnasol eraill. Dylai'r cwrs imiwneiddio fod wedi'i gwblhau o leiaf pedair wythnos cyn i'r ci letya yn y safle am y tro cyntaf neu'n unol â chyfarwyddiadau'r

gwneuthurwr. Rhaid cadw cofnod yn y safle yn nodi bod y dystiolaeth hon wedi'i chyflwyno drwy gydol y cyfnod y mae'r ci ar y safle.

5.5.3 Rhaid i'r Trwyddedai fod wedi'i gofrestru â meddygfa milfeddyg. Dylid gwybod enw meddygfa milfeddyg y cleient a chysylltu â nhw os bydd angen. Rhaid gofyn am gyngor gan filfeddyg pan nodir arwyddion o haint, anaf neu salwch. Pan fo unrhyw gi yn sâl neu wedi'i anafu, rhaid dilyn unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer trin y ci, a roddwyd gan filfeddyg, yn ddi-ffael gan nodi'r manylion. Dylai'r Trwyddedau roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am fanylion y driniaeth.

5.5.4 Dylid cadw pecyn cymorth cyntaf ar wahân a chynhwysfawr i'w ddefnyddio ar gŵn ar y safle ac wrth ymarfer cŵn oddi ar y safle.

5.5.5 Dylid rhoi mesurau ar waith i osgoi ymlediad chwain, chwilod, parasitiaid perfeddol a pharasitiaid eraill. Dylid cadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl driniaethau cyffredin a brys ar roddir mewn cysylltiad â pharasitiaid tra bo'r cŵn ar y safle.

5.5.7 Dylid trin y safle ar gyfer chwain a pharasitiaid gyda chynnyrch effeithiol yn ôl yr angen.

5.5.8 Dylid gofyn am gyngor gan filfeddyg mewn cysylltiad â sylweddau glanhau er mwyn sicrhau nac oes modd iddyn nhw nac unrhyw fygdarth sy'n codi ohonynt beri niwed i anifail.

## 5.6 ARWAHANU CŴN AC ACHOSION O HEINTIAU YMLEDOL

5.6.1 Dylid cadw unrhyw gŵn sy'n dangos unrhyw arwyddion o haint neu salwch ar wahân i gŵn eraill nes bod modd cael cyngor gan filfeddyg. Dylai cyfleusterau digonol fod ar gael yn y safle trwyddedig i sicrhau y gellir cadw unrhyw anifail sy'n sâl ar wahân yn effeithiol.

5.6.2 Dylai'r Trwyddedau roi gwybod i'r Cyngor ar unwaith os oes afiechyd heintus ar gi. Dylai hefyd gysylltu â'u meddygfa milfeddyg i ofyn am gyngor ar unrhyw fesurau diogelu angenrheidiol.

5.6.3 Yn dilyn achos o afiechyd heintus yn ystod unrhyw arhosiad, mae'n rhaid rhoi cyfnod cwarantin rhesymol ar waith yn y safle cyn y gellir derbyn unrhyw gŵn newydd ar gyfer gofal dydd. Swyddog Awdurdodedig y Cyngor fydd yn pennu hyd y cyfnod hwn gyda chyngor gan filfeddyg.

5.6.4 Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am farwolaeth unrhyw anifail ar y safle neu dan eu gofal. Mae'n rhaid i'r Trwyddedai wneud trefniadau i gadw'r corff ar safle milfeddyg nes bydd y perchenogion yn dychwelyd oni bai bod y perchennog neu eu cynrychiolydd yn dweud fel arall.

## 5.7 COFRESTRU

5.7.1 Mae'n rhaid cadw cofrestr o'r holl gŵn ar y safle. Mae'n rhaid cadw'r gofrestr mewn fformat sy'n golygu y gall aelodau staff allweddol ac unrhyw swyddog awdurdodedig neu filfeddyg gael gafael ar y fath wybodaeth yn hawdd. Mae'n rhaid i'r wybodaeth dan sylw gynnwys y canlynol:

- Dyddiad ac amser cyrraedd y safle;
- Enw'r ci, unrhyw system adnabod megis rhif sglodyn meicro, tatŵ;
- Disgrifiad, brîd, oed a rhyw y ci;
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r person sy'n gofalu am ci;
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person cyswllt tra bod y ci yng ngofal y gwasanaeth;
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci;
- Dyddiad ac amser gadael y safle;
- Tystiolaeth o imiwneiddio, hanes meddygol a gofynion;
- Manylion unrhyw driniaeth a roddwyd tra bod y ci yn cael gofal;
- Gofynion iechyd, llesiant, maeth ac ymarfer corff, hefyd;
- Copi o ganiatâd ysgrifenedig gan y perchennog o ran rhyngweithio rhwng eu ci nhw a chŵn eraill yn yr uned gofal dydd

5.7.2 Dylid sicrhau bod y fath gofrestr ar gael i'w harchwilio ar bob adeg gan Swyddog Awdurdodedig y Cyngor a/neu filfeddyg.

5.7.3 Mae'n rhaid sicrhau bod y gofrestr ar gael am o leiaf 2 flynedd a'i bod yn cael ei chadw yn y fath fodd fel ei bod yn hawdd i Swyddog Awdurdodedig allu cael gafael ar y wybodaeth.

5.7.4 Os oes rhaid rhoi meddyginiaeth, dylid cofnodi hynny.

5.7.5 Pan fo cofnodion yn cael eu cadw ar gyfrifiadur, dylid cadw copi wrth gefn. Mae'n rhaid i'r gofrestr hefyd fod ar gael i aelodau staff allweddol y sefydliad ar bob adeg.

## 5.8 GORUCHWYLIAETH

5.8.1 Bydd person cymwys ac addas sy'n meddu ar y wybodaeth berthnasol yn bresennol ar y safle bob adeg i ymarfer a goruchwylio'r cwn a delio ac unrhyw argyfyngau pan fydd cŵn yn lletya yn y safle. Mae'n rhaid i staff fod â phrofiad perthnasol ac ni ddylent gael unrhyw gollfarnau troseddol neu ni ddylent fod wedi derbyn unrhyw Rybuddion Syml am unrhyw droseddau'n ymwneud â lles anifeiliaid.

5.8.2 **Mae'n rhaid i'r trwyddedai gwblhau a dogfennu asesiad risg cyn y gellir rhoi unrhyw drwydded. Ni ddylai'r gymhareb staff mewn cysylltiad â goruchwylio cŵn fod yn llai nag un aelod o staff (cyfateb ag amser llawn) am bob 5 ci.**

5.8.3 Dylai'r staff/trwyddedai fod yn ymwybodol o leoliad yr holl gŵn ar y safle ar unrhyw adeg. Ni ddylid gadael cŵn ar eu pen eu hunain ar unrhyw adeg.

5.8.4 5.8.4 Mae'n rhaid cynnal diwrnod asesu a chyflwyno ar gyfer pob ci cyn y gall ryngweithio â'r cŵn eraill sy'n lletya yn y safle eisoes. Dylid cadw cofnod o'r asesiad a chyflwyniad a sicrhau ei fod ar gael i staff ar bob adeg.

5.8.5 Dylid rhoi hyfforddiant a chyfarwyddyd addas i unrhyw staff a gyflogir gan y trwyddedau mewn perthynas â phob agwedd ar y sefydliad lletya. Mae'n rhaid dogfennu cofnodion hyfforddiant perthnasol.

5.8.6 Dim ond pobl dros 16 mlwydd oed gaiff fynd â'r cŵn am dro heb oruchwyliaeth mewn mannau cyhoeddus.

5.8.6 Ni ddylid caniatáu i blant dan 5 mlwydd oed ddod ar y safle.

## 5.9 YMARFER CORFF

5.9.1 **Dylid ymarfer cŵn yn unol â dymuniadau eu perchenogion. Pan eir â'r cŵn oddi ar y safle, dylid eu cadw ar dennyn ar sail cymhareb o ddim llai nag 1 aelod o staff ar gyfer pob 3 chi.**

5.9.2 Mae'n rhaid sicrhau mynediad i ardal awyr agored addas. Dylai'r ardal neu ardd fod at ddibenion y busnes yn unig (nid yw'n cael ei rhannu a thrigolion / busnesau eraill). Rhaid cadw'r ardal hon yn lân. Os bydd cŵn yn cael eu hymarfer heb dennyn yn yr ardal hon mae'n rhaid iddi fod yn gwbl ddiogel. Dylai unrhyw ffensys fod yn ddigonol i sicrhau na all y cŵn ddianc o'r safle a'u bod yn ddiogel, heb unrhyw wrthrychau miniog neu fargodau. Mae'n rhaid gallu cloi gatiau.

5.9.3 **Dylid sicrhau bod gofod llawr o 9.3 metr sgwâr (100 troedfedd sgwâr) ar gael ar gyfer bob ci yn yr adeilad er mwyn sicrhau ymarfer corff a rhyngweithio digonol gyda'r cŵn eraill. Dylai'r gofod alluogi staff i gadw llygaid ar yr holl gŵn eraill ar bob adeg.**

5.9.4 Os oes pwll dŵr ar y safle, dylid sicrhau ei fod wedi'i ddiogelu fel y bo'n addas er mwyn atal cŵn rhag ei ddefnyddio.

5.9.5 Mae'n rhaid i gŵn wisgo coler a thag adnabod yn ystod eu cyfnod yn yr uned gofal dydd. Mae'n rhaid i'r tag nodi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y safle gofal dydd.

5.9.6 Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor a'r Heddlu ar unwaith os aiff ci ar goll. Gellir cysylltu â gwasanaeth warden cŵn y Cyngor drwy ffonio 0300 123 6696 a dylid ffonio'r Heddlu ar y rhif ffôn 101 nad yw i'w ddefnyddio ar gyfer galwadau brys.

**5.9.7 Dylai fod digon o adnoddau megis gwelyau, teganau ac ati yn y cyfleuster i ddiwallu anghenion llesiant pob ci ac atal cystadlu neu fonopoli.**

## 5.10 CLUDIANT

5.10.1 Mae'n rhaid i Drwyddedai sy'n cynnig gwasanaethau casglu a danfon sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r rheoliadau Llesiant Anifeiliaid mewn Cludiant cyfredol a dylai'r cerbydau gael offer diogelu cŵn neu gawell addas yn y cefn.

## 5.11 TÂN / ARGYFWNG

5.11.1 5.11.1 Mae'n rhaid rhoi camau priodol ar waith i ddiogelu cŵn rhag tân neu argyfyngau eraill.

5.11.2 5.11.2 Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r ardal y mae'r cŵn yn cysgu ynddi er mwyn sicrhau y gellir eu symud oddi yno'n hawdd os bydd tân.

5.11.3 5.11.3 Mae'n rhaid llunio ac arddangos gweithdrefn tân a chynllun ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng mewn lleoliad addas ar y safle – gan gynnwys y manylion o ran i ble y dylid symud y cŵn os bydd tân neu argyfwng arall.

5.11.4 5.11.4 Mae'n rhaid darparu offer canfod tân yn unol â'r cyngor cyffredinol a roddir gan y Swyddog Diogelwch Tân. Mae'n rhaid sicrhau bod synwyryddion mwg wedi'u gosod mewn lleoliadau addas yn yr adeiladau.

5.11.5 5.11.5 Mae'n rhaid cau drysau'r holl ystafelloedd gwag.

5.11.6 5.11.6 Mae'n rhaid cadw pob gosodiad a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel. Ni ddylid gadael unrhyw gi mewn ystafell gyda cheblau neu wifrau sy'n rhydd neu'n ymlusgo.

5.11.7 5.11.7 Dylai'r holl offer gwresogi fod yn rhydd o'r perygl o dân fel y bo'n rhesymol yn ymarferol. Ni ddylid defnyddio offer nwy neu olew di-sêl ar eu traed eu hun. Mae'n rhaid cadw unrhyw offer arall sy'n sefyll ar ei draed ei hun mewn dull diogel ac yn y fath fodd fel nad oes modd i gŵn ei droi drosodd.

---

## MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â RHEOLI SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

## A. Y WEITHDREFN APELIO

Gall unrhyw berson sy'n tybio ei fod wedi cael cam am fod awdurdod lleol wedi gwrthod rhoi'r fath drwydded iddo, neu oherwydd unrhyw amod sy'n gysylltiedig â rhoi'r fath drwydded, apelio i lys ynadon; a gall y llys mewn ymateb i'r apêl roi cyfarwyddiadau mewn cysylltiad â rhoi trwydded neu, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mewn cysylltiad ag amodau'r drwydded i'w rhoi fel y mae'n ei ystyried sy'n addas.

**B. CANLLAWIAU ATAL TÂN**

Caiff y wybodaeth ganlynol ei rhoi i drwyddedai, er mwyn ei helpu i gydymffurfio â'r gofynion atal tân a nodir yn amodau trwyddedu'r Cyngor sy'n nodi bod rhaid rhoi camau priodol ar waith i ddiogelu'r anifeiliaid os bydd tân neu unrhyw argyfwng arall.

Nod y canllawiau yw sicrhau bod y dulliau o ddianc a'r canllawiau eraill yn ddigonol ar gyfer bodau dynol. Dylid cadw mewn cof y gall y gofynion dan sylw ddod o dan ddeddfwriaeth arall.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol:

1. Mynediad i Ddiffoddwyr Tân a Chyflenwadau Dŵr– Dylid sicrhau bod digon o le i alluogi offer diffodd tân (dim llai na 3.7m o led) gyrraedd at yr hydrantau a dylid sicrhau bod ffynonellau dŵr eraill a lloriau caled ar gael. Dylid codi bwrdd yn nodi enw'r safle wrth ymyl y ffordd sy'n arwain at y fynedfa agosaf.

2. Dulliau Dianc – Dylid llunio llwybrau dianc ar gyfer anifeiliaid i'w galluogi i adael adeiladau ar sail llwybr uniongyrchol, heb fawr o gymorth gan ddynion. Dylid trefnu bod drysau'r llociau yn golygu bodd modd symud anifeiliaid allan o'r adeilad yn gyflym a dylid osgoi cynnwys unrhyw droadau llym, rhwystrau na rampiau yn y llwybr dianc.
   a) Dylid sicrhau bod allanfeydd o led ac uchder digonol yn y safle er mwyn gallu mynd at yr anifeiliaid yn rhwydd ar bob adeg.
   b) Dylid sicrhau bod modd agor yr allanfeydd o'r tu mewn heb allwedd.
   c) Os yw'n angenrheidiol, dylid gwneud trefniadau ar gyfer galw am ddeiliad allweddi.

   Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr o hyd neu pan fo nifer sylweddol o anifeiliaid yn y safle, dylid sicrhau bod dau allanfa ar gael ac wedi'u lleoli mor bell â'i gilydd â phosibl. Dylid cyfyngu hyd y daith i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu – Dylid codi arwyddion dim ysmygu yn yr holl ardaloedd lle cedwir gweiriau a phan fo hynny'n rhesymol dylid rhoi camau ar waith i atal mynediad i'r ardaloedd dan sylw heb awdurdod, yn enwedig gan blant.

4. Gosodiadau Trydanol – Dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau yn rheolaidd er mwyn atal llwch rhag cronni. Dylid gosod offer trydan, gwresogyddion ac ati mewn lleoliadau diogel lle nad oes modd iddynt ddod i gysylltiad ag unrhyw ddeunyddiau gwely fflamadwy.

5. Offer Diffodd Tân
   a. Diffoddwyr Tân Symudol – argymhellir y canlynol o leiaf:

      - Mae'n rhaid i adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr gael o leiaf 2 ddiffoddwr tan 9 litr ar gyfer pob adeilad ac mae'n rhaid i adeiladau sy'n fwy na 200 metr sgwâr ddarparu diffoddwr tân ychwanegol ar gyfer pobl 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran o hynny.

- Dylai diffoddwyr tân symudol fodloni gofynion BS EN 3 a'u gosod a'u cynnal a'u chadw yn unol â'r argymhellion a nodir yn BS 5306.
- Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, efallai y bydd yn bosibl lleihau hyn i un diffoddwr mewn safle bach iawn sydd â gofod llawr o lai na 90m$^2$.
- Ni ddylid defnyddio diffoddwyr tân sy'n gwneud sŵn mawr e.e. CO2 neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos at anifeiliaid.

b. Pibelli dŵr - Gellir defnyddio pibelli dŵr yn hytrach na diffoddwyr tân. Dylid cael o leiaf un bibell ar gyfer pob 800 metr sgwâr yn yr ardal neu ran ohoni. Dylai'r bibell gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Gall pibellau a ddefnyddir i olchi offer ac arwynebau fod yn dderbyniol, cyn belled bod ganddynt lif dŵr cyson sy'n gallu saethu dŵr am ddim llai na 5 metr. Ni ddylai pibelli dŵr fod yn fwy na 45 metr o hyd a dylid eu lleoli fel bod modd mynd â'r chwistrell hyd at 6 metr o bob rhan o'r safle i'w ddiogelu.

6. Hysbysiadau Tân – Dylai holl staff y sefydliad fod yn gyfarwydd â'r camau i'w rhoi ar waith os bydd tân. Dylid darparu hysbysiad clir ac amlwg yn nodi'r camau i'w rhoi ar waith a lleoliad y ffôn agosaf. Gall yr hysbysiad hwn gynnwys y canlynol:

   "Os canfyddir tân, dylech sicrhau bod pawb yn gadael yr adeilad dan sylw.
   Ffoniwch y Gwasanaeth Tân [mae'r ffôn agosaf yn ..................].
   Defnyddiwch yr offer tân a ddarperir i geisio diffodd y tân, os yw'n ddiogel i wneud hynny ayb.

7. Cyfeirnod Map A/O - Dylid sicrhau bod cyfeirnod map Arolwg Ordnans ar gael ar gyfer y safle a'i nodi ar yr Hysbysiad dan sylw.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn nodi bod rhaid rhoi mesurau diogelwch tân ar waith i amddiffyn personau perthnasol os bydd tân, ac yn yr holl safle y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddo. Mae'r cyfrifoldeb o ran cydymffurfio â'r gorchymyn yn nwylo'r 'person cyfrifol'. Mewn gweithle, y cyflogwr yw hwn ac unrhyw berson arall a all fod yn rheoli unrhyw ran o'r safle e.e. y preswylydd neu berchennog. Ym mhob safle arall y person(au) sy'n rheoli'r safle fydd yn gyfrifol am hyn. Mae'n rhaid i'r person cyfrifol:

Gynnal Asesiad Risg Tân, a dylid nodi'r canlyniadau pennaf os cyflogir pump neu fwy o bobl, os yw'r safle yn safle trwyddedig neu os oes hysbysiad addasu mewn grym.

I'ch cynorthwyo ymhellach, mae'r ddogfen *Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN:* 978 1 85112 884 6) ar gael gan y swyddfa offer swyddfa neu drwy wefan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol www.communities.gov.uk).

**C. IECHYD A DIOGELWCH**

Mae'r ddeddf Iechyd a Diogelwch yn berthnasol i bob busnes, waeth pa mor fach ydyw. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, chi sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae'n rhaid i chi roi camau ar waith i leihau'r peryglon yn y gweithle a sicrhau amgylchedd gwaith diogel.

Mae canllaw o'r enw *"Health and Safety made simple"* ar gael. Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy gynnig y wybodaeth sylfaenol o ran beth sydd angen i chi ei wneud

mewn un man. Bydd yn eich helpu i ddechrau ar y gwaith o reoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Efallai y bydd rhai gweithgareddau ychwanegol y bydd rhaid i chi eu gwneud i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae canllawiau pellach ar bynciau penodol, megis rheoli asbestos, atal salwch yn deillio o fod mewn cysylltiad ag anifeiliaid ac ati. Mae modelau asesiadau risg ar gael ar-lein ar www.hse.gov.uk.

Gellir lawrlwytho'r daflen "Health and Safety made simple" drwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf

**D. CANIATÂD CYNLLUNIO**

Nid yw'r drwydded hon yn rhoi unrhyw ganiatâd nac yn cymeradwyo unrhyw ddatblygiad dan y ddeddfwriaeth cynllunio. Cynghorir y gweithredwr i gadarnhau gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yr ardal y bwriedir lleoli'r busnes ynddi.

**E. CWYNION MEWN CYSYLLTIAD Â NIWSANS**

Nid yw'r drwydded hon yn cynnwys unrhyw eithriad rhag gofynion darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel y maent yn ymwneud â niwsans statudol, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud ag aroglau neu sŵn. Cynghorir y gweithredwr i sicrhau ei fod yn rhedeg y busnes yn y fath fodd fel nad oes unrhyw sail o ran gwneud cwyn.

**F. GWAREDU GWASTRAFF**

Mae'n rhaid cael gwared â'r holl wastraff a gynhyrchir gan y busnes yn unol â'r rheoliadau gwastraff cyfredol.

**Tachwedd 2017**